ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

TGCh mewn Chwarae Rôl

Trosolwg:
Caiff plant eu trochi mewn amgylcheddau cyfoethog o ran technoleg, yn eu cartrefi ac yn y byd o'u cwmpas. Felly, dylid eu hannog i siarad am TGCh yn y byd ehangach a chael cyfleoedd i ddefnyddio TGCh yn briodol yn eu chwarae er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am y byd a'u dealltwriaeth ohono. Dylid eu cynnwys wrth gynllunio'r mannau chwarae rôl a gwneud adnoddau chwarae TGCh megis peiriannau arian parod, gorsafoedd talu parcio, sganwyr meysydd awyr, llungopïwyr a chyfrifiaduron.

Wrth sefydlu mannau chwarae rôl, mae angen ystyried y dechnoleg a fyddai'n amlwg mewn bywyd go iawn a sicrhau bod adnoddau TGCh yn adlewyrchu technoleg berthnasol a chyfredol. Yn y Blynyddoedd Cynnar, fel arfer mae o leiaf un o'r mannau chwarae rôl yn gornel Hafan, a allai gynnwys peiriannau rhaglennadwy megis peiriannau golchi, peiriannau golchi llestri, setiau teledu, darnau llaw a chwaraewyr DVD yn ogystal â ffonau gwasgu botwm, ffonau symudol, chwaraewyr MP3, etc. Gall y rhain naill ai fod yn adnoddau *go iawn* neu'n *rhai gwneud* a dylai oedolion ddangos sut i'w defnyddio'n briodol. Dylid annog disgyblion i efelychu'r hyn maent yn ei weld a dylid arsylwi arnynt yn ddigymell yn hwyrach, gan ddefnyddio'r adnoddau fel rhan naturiol o'u chwarae, gan ddangos rhywfaint o reolaeth wrth ddefnyddio taclau ac offer.

Wrth i blant ddatblygu ac ennill mwy o wybodaeth am y byd, dylai'r mannau chwarae rôl fod yn briodol i'w cam datblygu yn ogystal ag adlewyrchu sefyllfaoedd newydd a chynnig cyfleoedd i ddatblygu a dysgu am amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Gellir creu swyddfeydd, swyddfeydd gwerthu tai, bwytai Tsieineaidd, meysydd awyr etc. ac annog plant i lunio a thrin arian yn ogystal â chyflwyno geirfa newydd a chyfleoedd i ddysgu am ddiwylliannau eraill. Dylai mannau chwarae rôl fod yn ysgogol ac yn ddeniadol i fechgyn a merched ac wedi'u trefnu i hyrwyddo ymreolaeth ac annibyniaeth.

Mewn mannau chwarae rôl tymor hir, gellir newid, datblygu neu gynyddu'r adnoddau dros gyfnod o amser i wella, cyfoethogi ac estyn cyfleoedd chwarae i'r plant. Bydd pynciau a themâu'n rhoi cyfle i'r plant gael profiadau chwarae arbenigol a gellir eu bywiogi trwy sefydlu mannau chwarae rôl newydd, megis siopau, caffis, meddygfa, milfeddygfa, swyddfa bost, iard adeiladu etc. i gefnogi ac estyn gwybodaeth a dealltwriaeth plant.

Er y dylid darparu mannau chwarae rôl dan do bob amser, mae angen ystyried datblygu chwarae rôl yn yr awyr agored. Mae'r awyr agored yn rhoi cyfleoedd unigryw ar gyfer chwarae rôl megis canolfannau garddio, fforwyr gwyddonol, digwyddiadau traffig ffordd, gwaith ffordd, lle golchi ceir, gorsaf dân, gwasanaeth torri i lawr etc.

Er y bydd mannau chwarae rôl dan do wedi'u cynllunio a'u llunio ar gyfer cyfnodau hwy, mae naws unigryw darpariaeth awyr agored yn golygu ei bod yn anodd creu mannau chwarae rôl tymor hir. Mae tŷ bach twt yn adnodd hyblyg a gellir ei wneud yn amrywiaeth o sefyllfaoedd chwarae'n dibynnu ar themâu/pynciau neu ddiddordeb/cyfleoedd digymell a all godi. Mae blychau chwarae rôl yn rhoi opsiynau hyblyg eraill. Gall y cynnwys amrywio a dylai ennyn diddordeb ac annog disgyblion i chwarae ac archwilio digwyddiadau go iawn a / neu ddychmygus trwy ysgogi sefyllfaoedd chwarae penodol. Er enghraifft, gallai digwyddiad traffig ffordd gynnwys arwyddion heol, goleuadau traffig, gwisg heddlu, siacedi fflworoleuol, setiau symud a siarad, nodiaduron a phensiliau, offer mesur, camera digidol, tâp digwyddiad, pecyn meddygol etc.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Adnoddau:

Sicrhewch y darperir dewis amrywiol, parhaol a gwell o ddyfeisiau TGCh sy'n adlewyrchu bywydau pob dydd plant. Anogwch y plant i ddefnyddio'r teganau hyn fel rhan o'u chwarae, e.e. rhoi negeseuon ar y ffôn ateb, defnyddio setiau symud a siarad neu bensetiau dwyffordd ar gyfer cyfathrebu mewn chwarae, gan ddefnyddio ffonau symudol a chamerâu nad ydynt yn gweithio bellach, bysellbadiau diogelwch ar gyfer mynediad, peiriannau tocynnau, sganwyr codau bar, camerâu diogelwch, tiliau digidol, dyfeisiau chip a pin a pheiriannau pwyso ac enwi ond ychydig. Ni fydd y rhain o anghenraid yn costio llawer o arian - gall defnyddio offer nad yw'n gweithio bellach fod o gymorth, neu gweithiwch gyda'r plant i wneud eu rhai eu hunain, er enghraifft sganwyr codau bar cardbord, peiriannau tocynnau, peiriannau arian parod a llungopïwyr. Cofiwch ddysgu'r sgiliau y bydd eu hangen ar y plant er mwyn deall a defnyddio'r adnoddau hyn. Dewch o hyd i gyfleoedd ar draws profiadau plant i ddatblygu sgiliau rheoli mân symudiadau fel y gallant reoli'r offer sydd o'u cwmpas.

Rhowch gynnig ar fynd ar daith gerdded TGCh gyda'r plant gan adnabod TGCh a defnyddiau cysylltiedig yn yr amgylchedd, megis goleuadau stryd, goleuadau traffig, drysau awtomatig a pheiriannau tocynnau. Mae'n gallu bod yn dipyn o agoriad llygad a sbarduno sefydlu mannau chwarae rôl awyr agored, megis meysydd parcio, yn ôl yn y sefydliad. Gellir tynnu lluniau ar y daith gerdded a'u defnyddio ar fwrdd gwyn rhyngweithiol i gynorthwyo cofio a siarad am y profiad a gweithredu hefyd fel sbardun i'r plant wneud eu harwyddion ffordd neu eu propiau eu hunain ar gyfer chwarae rôl.

Bydd gweithgareddau a phrofiad ymarferol yn cefnogi dealltwriaeth a sgiliau plant wrth ddefnyddio offer a meddalwedd TGCh. Mae dewis helaeth o adnoddau a fydd yn helpu i adlewyrchu'r byd go iawn mae plant yn byw ynddo a rhoi cyfleoedd iddynt arbrofi, ymarfer ac adeiladu cymhwysedd wrth ddefnyddio offer TGCh drostynt eu hunain.

Rhowch y cyfrifiadur yn y man chwarae rôl a thrafodwch ei ddefnyddiau a'i ddibenion mewn sefydliadau chwarae rôl gwahanol. Cefnogwch y chwarae rôl â'r feddalwedd briodol, e.e. pecynnau At the Doctors, KidDesk neu Graphics ar gyfer gwneud marciau pwrpasol, ysgrifennu datblygol neu ysgrifennu ac argraffu testun.

Rhai awgrymiadau ar gyfer mannau chwarae rôl:

- **Swyddfa'r ysgol**
- **Siop neu swyddfa bost**
- **Swyddfa gwerthu tai**
- **Caffi neu fwyty**
- **Meddygfa**
- **Milfeddygfa**
- **Ysbyty**
- **Garej**
- **Lle golchi ceir**
- **Maes awyr**
- **Gorsaf drenau neu fysus**
- **Safle adeiladu**
- **Canolfan arddio**
- **Maes parcio**

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg